**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio i Waredu Ysbyty Canolbarth Cymru - AC (2) 02-04**

**Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiolchgar am yr adroddiad. Croesawn y canfyddiadau a chynigiwn yr ymateb canlynol i'r un argymhelliad ar ddeg yn yr adroddiad**

**Argymhelliad i**
Dylai cyrff y GIG lynu'n llym wrth ofynion WHC (2002) 130 ar waredu eiddo

Cytunwn. Cyhoeddwyd Cylchlythyr Iechyd Cymru (WHC) yn Rhagfyr 2002 mewn ymateb i adroddiad gwreiddiol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Waredu Ysbyty Canolbarth Cymru ond cyn i'r Pwyllgor Archwilio allu cwblhau ei ymholiadau. Mae'r cylchlythyr hwn yn atgoffa holl gyrff GIG Cymru sy'n dal eiddo am eu cyfrifoldebau fel gwarcheidwaid asedau cyhoeddus i sicrhau bod pob gwaredu yn cael ei reoli yn unol â'r safonau uniondeb uchaf ac yn unol â'r canllawiau ar arferion gorau. Mae'r cylchlythyr yn nodi'r arweiniad strategol allweddol i'w ddefnyddio gan y GIG wrth waredu eiddo, yn atgoffa'r gwasanaeth am bwysigrwydd sicrhau cyngor proffesiynol priodol ac yn mynd ymlaen i roi manylion am y gofynion penodol sy'n ymwneud â Rheoleidd-dra a Phriodoldeb a Gwerth am Arian mewn Gwarediadau. Mae WHC (2002) 130 yn nodi bod rhaid llunio achos busnes ar gyfer pob gweithrediad; bydd hynny'n galluogi monitro, a gyflawnir trwy swyddogaeth ehangach Ystadau Iechyd Cymru mewn gweithdrefnau gwaredu.

**Argymhelliad ii**
Dylai Adran GIG y Cynulliad ailedrych ar effeithiolrwydd ei arweiniad i gyrff y GIG ar ddatblygu cynaliadwy a sicrhau ei fod yn cael ei ddilyn yn iawn

Cytunwn. Mae perthnasedd a defnyddioldeb arweiniad y Cynulliad, TAN (02) 04 a'r ddogfen "Sustainable Development in the NHS" dan ystyriaeth barhaus a chaiff unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau eu hanfon ymlaen i'r gwasanaeth yng Nghymru gan Ystadau Iechyd Cymru. Mae Ystadau Iechyd Cymru hefyd yn olrhain cynlluniau datblygu cynaliadwy cenedlaethol trwy ei gynrychiolaeth ar Grŵp Polisi Amgylcheddol y DU a bydd yn dosbarthu unrhyw gynlluniau newydd i'r GIG yng Nghymru fel y digwyddant.

**Argymhelliad iii**
Dylai Adran GIG y Cynulliad egluro'n benodol mewn canllawiau na ddylid byth ystyried cyfarfodydd i drafod trafodion masnachol yn rhai "anffurfiol" ac y dylai cyfarfodydd o'r fath bob amser gael eu cofnodi

Cytunwn. Mae WHC (2002) 130 *(Cyhoeddwyd yn Rhagfyr 2002)* yn rhoi manylion gofyniad Estatecode sef bod rhaid cofnodi pob penderfyniad a mater yn ymwneud â

gwaredu yn llawn ac yn glir er mwyn darparu llwybr archwilio cynhwysfawr sy'n dangos bod corff GIG wedi gweithredu'n briodol. Mae Cyfarwyddwr Adran GIG Cymru hefyd wedi addo (mewn llythyr dyddiedig 10fed Chwefror 2004, a gyfeiriwyd at Janet Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio) y bydd yn ysgrifennu at y Gwasanaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd cadw cofnodion da, cynnal llwybrau archwilio ar gyfer penderfyniadau, cofnodi penderfyniadau yn briodol a rheoli risg yn bendant fel sylfaen i benderfyniadau. Bydd y llythyr hwn hefyd yn tynnu sylw at holl ganfyddiadau ac argymhellion adroddiad terfynol y Pwyllgor Archwilio ac anfonir copi ohono at y Pwyllgor gan gyhoeddir ef.

**Argymhelliad iv**

Dylai Adran GIG y Cynulliad a holl gyrff y GIG ailystyried a ydynt wedi gwneud paratoadau digonol ar gyfer cychwyn yr hawliau mynediad cyffredinol dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn Ionawr 2005. Os penderfynant nad ydynt yn ddigon parod, dylent gymryd camau i unioni hynny ar frys

Cytunwn. Bydd y Cyfarwyddwr, GIG Cymru, yn ysgrifennu at Adran GIG y Cynulliad ac at holl gyrff y GIG yn dweud wrthynt am gynnal adolygiad. Anfonir copïau o'r llythyrau a chanfyddiadau'r adolygiad at y Pwyllgor Archwilio.

**Argymhelliad v**

Dylai cyrff y GIG sy'n cymryd eiddo ar brydles ddefnyddio cofnodion o gyflwr, neu o leiaf gofnodion gweledol o'r eiddo, ac yn achos yr olaf, lle bo modd, dylent gytuno arnynt â'u landlordiaid, fel ffordd o reoli'r risg o hawliadau eithafol am ddadfeiliadau

Cytunwn. Yn WHC (2002) 044, cyflwynwyd trefniadau newydd ar gyfer rheoli gwaredu Ystadau GIG sydd dros ben. Mae'r newid hwn yn golygu bod mwy o gyfle i gael mynediad at gyngor proffesiynol trwy Ystadau Iechyd Cymru. Defnyddio cofnod o gyflwr yw'r ffordd arferol o fynd ati bellach, ac mae hynny i'w ddisgwyl pan fo cyngor proffesiynol yn argymell hynny. Sicrheir cydymffurfio â'r drefn trwy ymwneud Ystadau Iechyd Cymru â'r broses waredu.

**Argymhelliad vi**

Er mwyn osgoi amheuaeth, dylai cyrff y GIG sy'n ymdrin â gwarediadau gadw cofnodion llawn o'u cyfathrebu â darpar brynwyr ynghylch unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar werth

Cytunwn. Cynyddodd cyhoeddi WHC (2002) 044 hygyrchedd a dylanwad cyngor proffesiynol o fewn y prosesau gwaredu. Dylai hyn sicrhau y defnyddir dulliau cyfathrebu effeithiol. Mae WHC (2002) 130 yn cyfeirio'n benodol at gadw cofnodion a llwybrau archwilio ym mharagraff 14. Bydd addewid Cyfarwyddwr Adran GIG Cymru mewn perthynas ag Argymhelliad iii hefyd yn gymwys yn yr adran hon.

**Argymhelliad vii**
Dylai cyrff y GIG dynnu sylw arbennig asiantau'r sector preifat at y gofyniad penodol i ddilyn gweithdrefnau ceisiadau dan sêl wrth ymgymryd â thendrau anffurfiol

| |
|---|
| Cytunwn. Mae prosesau sy'n ymwneud â cheisiadau dan sêl ar gyfer gwarediadau Ymddiriedolaethau yn dilyn rheolau a gweithdrefnau sefydlog yr Ymddiriedolaethau. Mae WHC (2002) 130 para 13 yn cyfeirio'n benodol at yr angen i gyrff y GIG ofyn i'w hasiantau ddilyn yr un arferion da. Cynhelir adolygiadau gwaredu â phob Ymddiriedolaeth yn flynyddol ac mae rhan o'r adolygiadau hyn yn cynnwys sicrhau bod gweithdrefnau wedi eu dilyn yn unol â'r safonau a ddisgwylir. Bydd y Cyfarwyddwr, GIG Cymru, hefyd yn ysgrifennu at Sefydliad y Syrfewyr Siartredig yng Nghymru yn rhoi gwybod iddynt am y safonau a ddisgwylir gan eu haelodau pan fyddant yn gwneud gwaith gwaredu i gyrff y GIG yng Nghymru. |

**Argymhelliad viii**
Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru dynnu sylw pob swyddog cyhoeddus sy'n ymdrin â gwarediadau at yr angen i amlygu a chynnal "maes chwarae gwastad" yn eu hymwneud â darpar brynwyr

| |
|---|
| Cytunwn. Mae WHC (2002) 130 yn ymdrin yn benodol â gofynion rheoli prosesau gwaredu ac â disgwyliadau'r holl swyddogion cyhoeddus sydd â rhan ynddynt. Dylai glynu wrth y cylchlythyr hwn sicrhau y cedwir "maes chwarae gwastad" ym mhob gweithgarwch gwaredu. |

**Argymhelliad ix**
Dylai Cyfarwyddwr GIG Cymru ddefnyddio'r broses arfarnu i sicrhau bod gan ei Swyddogion Atebol ddealltwriaeth briodol o wahanol swyddogaethau penodol archwilwyr a benodwyd gan y GIG ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

| |
|---|
| Cytunwn. Mae Cyfarwyddwr GIG Cymru eisoes wedi cymryd camau yn hyn o beth trwy gynnal nifer o seminarau ar gyfer Prif Weithredwyr yn manylu ar ystyr bod yn swyddog atebol yn ymarferol (yn ogystal ag mewn egwyddor). Fel cam ychwanegol, er mwyn cefnogi'r broses arfarnu a chynorthwyo datblygiad Prif Weithredwyr GIG Cymru, mae llawlyfr ar Atebolrwydd, Perfformiad a Datblygiad wedi ei ddatblygu.<br><br>Mae'r llawlyfr yn cynnwys Datganiad o Atebolrwydd a Fframwaith Ymddygiad a Safonau ategol. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi manylion am swyddogaeth, cyfrifoldebau ac atebolrwydd Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr GIG Cymru ac yn galluogi hunan-asesiad o fewn fframwaith datblygu perfformiad.<br><br>Mae'r Llawlyfr i Gadeiryddion wedi cyrraedd y cam ymgynghori a disgwylir ei gwblhau yn ystod Mai 2004. Mae Llawlyfr y Prif Weithredwyr yn dal ar ffurf ddrafft a disgwylir iddo fod yn barod i ymgynghori yn ei gylch erbyn diwedd Ebrill 2004. |

Anfonir copïau o'r dogfennau hyn ymlaen i'r Pwyllgor Archwilio pan gyhoeddir hwy.

**Argymhelliad x**
Dylai Cyfarwyddwr GIG Cymru sicrhau bod y cyfarwyddiadau ariannol sefydlog ar gyfer cyrff y GIG yn rhoi pwyslais ar yr angen i roi gwybod i Adran GIG y Cynulliad am daliadau newydd a dadleuol

Cytunwn. Rhoddir cyngor manwl ar golledion a thaliadau arbennig yn “Losses and Special Payments Manual of Guidance” a gyhoeddwyd ynghyd â WHC (1999) 033 ym Mawrth 1999. Mae hwn yn nodi'n benodol ym mharagraffau 3.3 a 5.6 bod rhaid cyfeirio pob achos newydd, dadleuol neu bob achos sydd ag ôl-effeithiau at Adran GIG Cymru hyd yn oed os yw o fewn terfynau dirprwyedig corff iechyd. Bydd y sylw arbennig i'r agwedd hon ar y cyfarwyddiadau ariannol sefydlog yn cael ei bwysleisio yn y llythyr a anfonir gan Gyfarwyddwr Adran GIG Cymru. Ceir manylion am hyn yn Argymhelliad iii.

**Argymhelliad xi**
Os rhywbeth, dylai cyrff y GIG fod yn or-ofalus wrth benderfynu a ddylent atgyfeirio trafodion anarferol i Adran GIG y Cynulliad neu roi gwybod iddi amdanynt

Cytunwn. Mae'r “Losses and Special Payments Manual of Guidance” yn disgrifio'n glir y mathau o golledion a thaliadau arbennig a'r terfynau a ddirprwywyd i gyrff iechyd. Mae'r canllaw'n mynnu bod rhaid cyfeirio pob achos newydd neu ddadleuol a phob agos sydd ag ôl-effeithiau at Adran GIG Cymru. Tanlinellir y pwynt hwn yn y llythyr a anfonir gan Gyfarwyddwr Adran GIG Cymru yn dilyn adroddiad terfynol y Pwyllgor. Anfonir copi o'r llythyr at y Pwyllgor Archwilio pan gaiff ei ddosbarthu. Ceir manylion am hyn yn Argymhelliad iii.